- Dylid aros ar agor yn ystod amser cinio oherwydd anghyfleustra cerdded o'r llyfrgell i ganol y dref ac yn ôl. / Should stay open during lunchtime because of inconvenience of walking from the library to the town centre and back.
- Dylai'r llyfrgell fod ar agor i siwtio amserau rhydd y Coleg er mwyn i bobl ifanc/myfyrwyr allu ei ddefnyddio. / The library should be open to suit free periods in the College so that young people/students can use it.
- 'Buaswn yn fodlon gydag oriau newydd cyn belled fy mod yn gwybod beth ydyn nhw.' / 'I'd work around new hours as long as I know what they are'.

N. Beth fydd effaith gwario llai ar stoc? – What would be the effect of spending less on stock?

- Efallai byddai'n anoddach i gael gafael ar deitlau newydd. / It may be more difficult to get hold of new titles.
- Ddim yn meindio llyfrau hefo bach o hoel defnydd/blêr. / Don't mind books which have signs of use/a little 'tatty'.
- Gellir prynu llai o'r llyfrau nad oes llawer o alw amdanynt. / Fewer of the books which are less in demand could be bought.
- Ddim yn meindio aros am lyfrau. / Don't mind waiting for books.
- Mae'r gwasanaeth archebu'n bwysig ac efallai gellid gwneud hefo llai o lyfrau ar y silffoedd ond gyda gwasanaeth archebu effeithiol fel sydd ag hyn o bryd. / The ordering service is important and perhaps could do with fewer books on the shelves but keep the efficient ordering service as it is now.
- Buasai torri drwy ganolbwyntio ar lyfrau clawr-meddal yn golygu cyfnodau aros hwy am deitlau newydd a gall hyn effeithio ar y gwasanaeth. / Cutting by focussing on paperback books could lead to longer waiting times for new titles which could affect the service.
- Sylwi bod y llyfrau mewn cyflwr da ac wedi synnu ar y nifer o deitlau newydd. / Notice the books are in a good state and surprised at the number of new titles.
- Dylai'r llyfrgell annog pobl i werthfawrogi ac edrych ar ôl y llyfrau. / Library should encourage people to value and look after the books.

- Gellir gwneud â llai o DVDs a dydw i ddim yn defnyddio'r adran gyfeirio. / Could do with fewer DVDs and I don't use the reference section.

O. Beth fydd effaith bod â llai o staff a pheiriannau sganio yma? – What would be the effect of having fewer staff and self-scanning machines here?

- Mae'n braf cael rhywun call i ofyn cwestiynau iddo – staff yn bwysig. / It's nice to have someone to ask a question to – staff are important.
- Credu bydd pobl yn osgoi defnyddio peiriannau – mae yna bersonoliaethau na fuasai ddim yn awyddus trio. / Think people would avoid using machines – there are some people who would not be keen to try.
- Ni fuaswn yn meddwl defnyddio un – mae siarad gyda llyfrgellwyr dwi'n eu hadnabod ers blyneddau yn rhan annatod o fy ymweliad. / I wouldn't think of using one – speaking with librarians I have known for years is integral to my visit.
- Rwy'n hoffi cyswllt gyda wyneb cyfeillgar – mae pobl yn bwysig oherwydd rwy'n byw ar fy mhên fy hun. / I like to have contact with a friendly face – people are important since I live on my own.
- Ni fuaswn yn poeni am ddefnyddio peiriant ond does dim problem oherwydd ar y cyfan does dim 'ciw' yma ar wahân i pan fo digwyddiad ymlaen. / I wouldn't worry about using a machine but on the whole there isn't a problem here since there are rarely queues apart from when an event is on.
- Mae argymhellion gan lyfrgellwyr yn bwysig – mae'n amhrisiadwy – mae llyfrgellwyr yn adnodd pwysig. / Recommendations from librarians are important – can't put a price on this – librarians are an important resource.

P. Awgrymiadau – Suggestions

- Gall bar coffi yma helpu i godi pres ac annog pobl i aros a defnyddio'r llyfrgell. / A coffee bar here could help raise funds and encourage people to stay and use the library.
- Torri awr y dydd ym mhob llyfrgell – faint o arian fyddai hynny'n ei arbed? / Cut an hour a day per library – how much money would that save?
- Cychwyn toriadau llai yn gyffredinol e.e. argraffu taflenni gefn-wrth-gefn ac ati. / Initiate smaller cuts across the board e.g. printing leaflets back to back etc.
- Buaswn yn hoffi gwybod mwy am y gwasanaeth e-lyfrau. / I would like to know more about the e-books service.

Dd. Gwirfoddoli – Volunteering

- Beth am gael trefn lle mae pobl sydd wedi ymddeol neu hanner ymddeol yn rhoi amser i'r llyfrgell a chael rhywbeth yn ôl e.e. hyfforddiant cyfrifiadurol? / Why not have a system where retired people or those who are semi-retired give their time and they receive something back for free e.g. computer training?
- Beth am gael 'buddy system' lle gall defnyddwyr ddod â chyfaill i fewn i gymdeithasu ac ati? / What about having a 'buddy system' where users bring a friend in to socialise etc.?
- Bosib cael rhywun yn stacio sillfoedd ond mae yna risgiau yn hwn gan ei fod yn hawdd gwneud camgymeriadau. / Could have someone stacking shelves but there are risks since mistakes can be easily done.
- Beth am i wirfoddolwyr redeg y siop goffi/le diodydd – tebyg i ysbytai gan WRVS? / What about volunteers running the coffee/drinks bar – similar to the WRVS in hospitals?
- ✓✓ Beth am gludo pobl i'r llyfrgell – pwysig gan ei fod yn anodd cerdded yno yn y glaw ac ati? / What about giving lifts to people – important since it's difficult to walk there in the rain etc.?

- Trefn wirfoddoli i helpu gyda'r elfen gymdeithasu gan fod cymaint yn ei weld fel gofod cymdeithasu. / Have a volunteer system to help with the social element since so many see this as a space to socialise.
- Buaswn i'n gwirfoddoli yma – rhedeg sesiynau crefft a darllen i blant. / I'd socialise here – run craft and reading sessions for children.

LLYFRGELL PWLLHELI LIBRARY

Adborth a sylwadau – Feedback and comments

Q. Os bydd rhaid torri gwerth diwrnod o oriau mae'r llyfrgell ar agor pryd fyddai'n oddefol? – If a day's worth of hours had to be cut from this library's opening hours when would be tolerable?

- ✓✓ Fel rhywun sydd wedi ymddeol dwi'n hyblyg / As someone who's retired I'm flexible.
- Dylai'r oriau siwtio'r staff – pwysig cadw staff proffesiynol / The hours should suit staff – important to keep staff.
- Beth am gau ar ddydd Gwener am 5 yn hytrach na 7 neu torri'n gyfan gwbl? / Why not close on Fridays at 5 instead of 7 or cut completely?
- Beth am dorri hanner diwrnodau a chadw'r dyddiau hir? / Why not cut half days and keep the long days?
- ✓ Beth am agor am 3 bore ac am 3 p'nawn yr wnos? / Why not open on 3 mornings and for 3 afternoons?
- Efallai cau am 6 yn lle 7 yr hwyr? / Perhaps close at 6 instead of 7pm?
- Mae'r canlynol yn bwysig:
 - ✓✓ dydd Mercher oherwydd y farchnad,
 - boreau Sadwrn oherwydd pobl sy'n gweithio
 - dyddiau Gwener oherwydd y papurau wythnosol.
- The following is important:
 - open on Wednesdays because of the market,
 - Saturday mornings because of working people
 - Fridays due to weekly newspapers.

R. Beth fydd effaith gwario llai ar stoc? – What would be the effect of spending less on stock?

- Mae cadw stoc ar gyfer gweithgarwch plant yn bwysig / Keeping the children's stock for children's activities is important.
- Efallai bydd angen disgwyl am lyfrau arbenigol tan iddynt gael eu cyhoeddi mewn clawr papur? / Perhaps we'll have to wait for specialist books until they are published in paperbacks?
- Mae yna benderfyniadau anodd i'w gwneud – dylai'r pwyslais fod ar lyfrau i'r to ifanc a llyfrau Cymraeg / There are difficult decisions to be made – perhaps the emphasis should be on books for youngsters and Welsh books.
- Buaswn yn hoffi cadw'r casgliad da, eang o lyfrau 'catholig' – mae yma ddewis a gwasanaeth ardderchog / Would like to retain the good broad, 'catholic' selection of books' – there is an excellent choice and service here.
- ✓✓✓✓✓✓ "Dan ni'n fodlon aros am bach yn hirach pan yn archebu llyfr cyn belled ei fod yn troi fyny." / 'We're prepared to wait for a little longer when ordering a book as long as it turns up.'
- Dylid gwella'r dewis a'r drefn lawrlwytho o e-lyfrau - mae'r wefan yn crasio'n rhwydd / The choice and process of downloading e-books should be improved – the website crashes easily.
- ✓✓ Mi fuaswn i'n derbyn llyfrau blêr. / I would put up with tattier books.
- Angen bod yn ymwybodol o argraffiadau cyntaf i ddefnyddwyr newydd. / Need to be aware of first impressions for newcomers.

- Ddim yn gwneud llawer o synnwyr torri stock os yw nifer y defnyddwyr yn mynd i gynyddu oherwydd cau llyfrgelloedd eraill. / Doesn't make much sense to cut stock if the number of users are going to increase due to closures of other libraries.
- Mae teitlau newydd yn bwysig. / The new titles are important.

S. Beth fydd effaith bod â llai o staff a pheiriannau sganio yma? – What would be the effect of having fewer staff and self-scanning machines here?

- ✓✓ Mae cael barn staff yn bwysig. Mae cael gwasanaeth aelod o staff yn bwysig er mwyn elwa o'u profiad. / The opinion of staff is important. Having service from staff and benefiting from their experience is important.
- Mae yma wasanaeth ardderchog – clên ac amyneddgar. / The service here is excellent – kind and patient.
- Os fydd raid i hyn ddigwydd er mwyn cyfaddawdu, yna mae'n iawn – gallaf fyw efo hynny. / If this has to happen as a compromise it's OK – I can live with it.
- Ni fuaswn yn ei ddefnyddio. / I wouldn't use it.
- Byddai hyn yn newid cymeriad y llyfrgell. / This would change the character of the library.
- Gall ryddhau staff i allu trafod problemau yn iawn – teimlo'n llai euog wrth drafod gyda llyfrgellydd. / Could free up staff to discuss issues properly – feel less guilty when discussing with librarian.
- A fyddai yna ddigon o arbediad? / Would there be enough of a saving?
- Gall peiriant fod yn annibynadwy ac yn boen. / Machine could be unreliable and a pain.

T. Awgrymiadau – Suggestions

- Efallai bod lle i gysylltu mwy hefo a defnyddio llyfrgelloedd prifysgolion? / Perhaps there's room to connect with and use University libraries more?
- Pam ddim paratoi bocs o lyfrau ar gyfer pobl sy'n methu mynd o'u cartrefi a gofyn i rywun ei ddanfon iddynt ar eu ffordd i rywle yn hytrach na gwneud siwrne benodol? / Why not prepare box of books for those who are stuck at home and ask someone who's going that way to deliver instead of making a dedicated journey?
- ✓✓ Annog pobl i gyfrannu llyfrau mewn cyflwr da. / Encourage donations of books in good condition.
- Beth am gael tâl aelodaeth blyneddol? / What about having an annual membership fee?
- Dylid codi tâl am archebu llyfrau. / Should charge for ordering books.
- Pam ddim trefnu sesiynau iechyd a lles a denu defnyddwr felly – angen ystafell ar wahân. / Why not organise health and well-being sessions and attract users that way? – need a separate room.
- Dylid parhau i godi am ddefnyddio cyfrifiaduron os ddim yn aelod o'r llyfrgell. / A charge should continue to be made for computer use if a person is not a member.
- Pwysig cadw staff sy'n gallu siarad Cymraeg. / Important to keep staff who can speak Welsh.
- Pam ddim hyrwyddo gwasanaethau eraill e.e. llungopiwr? / Why not promote other services e.g. photocopying?

Dd. Cwestiynau am y ddogfen strategaeth/ymgynghorol – Questions regarding strategy/consultation document

- Beth yw maint y gyllideb a faint sydd angen ei dorri? / What is the size of the budget and how much needs to be cut?
- Faint fydd yn cael ei arbed drwy gau 8 adeilad? / How much will be saved by closing 8 buildings?
- Angen egluro buddion newid. / Need to explain the benefits of changing.
- Efallai y bydd llyfrgelloedd symudol yn cael eu gweld fel ffynonellau hanfodol ond faint o ddefnydd a wneir ohonynt? A ydynt yn hyfyw mewn gwirionedd? / Mobile libraries may be seen as essential but how much are they used? Are they really viable?

- Mae'r ddogfen wedi mynd yn rhy bell gyda'r agwedd ddigidol. / The digital aspect has been overplayed in the document.

e. Sylwadau – Comments

- Dylid cydnabod bod llyfrgelloedd yn cadw pobl yn gynnes a sych yn ystod y gaeaf. / Should recognise that libraries keep people warm and dry during the winter.
- 'Mae'r llyfrgell hon yn rhan o'n bywydau – gallwn fynd a dod fel y mynnwn.' / 'This library is a part of our lives – we can pop in as and when'.
- Ceir awyrgylch hapus yma mewn adeilad canolog hyfryd. / There's a happy atmosphere here in a lovely central building.

LLYFRGELL TYWYN LIBRARY

Adborth a sylwadau - Feedback and comments

U. Os bydd rhaid torri gwerth diwrnod o oriau mae'r llyfrgell ar agor pryd fyddai'n oddefol? / If a day's worth of hours had to be cut from this library's opening hours when would be tolerable?

- ✓✓✓ Pa bynnag doriadau i'r oriau yr ydych yn eu gwneud – bydd yn effeithio rhywun! ✓✓✓ Whichever cuts to hours you make – it'll affect someone!
- Ofn mai hyn yw blaen y gyllell – bydd torri ychydig o oriau yn arwain at fwy o doriadau / Afraid that this is the thin edge off the wedge – cutting a few hours will lead to more cuts.
- ✓ Dylai'r llyfrgell yma bod ar agor am FWY o oriau nid llai, os yw'r llyfrgelloedd rhan amser yn cau / ✓ If the part-time libraries are closing, this library should be open for MORE hours not fewer.
- Mae lleoliad daearyddol Tywyn mewn perthynas â gweddill Gwynedd yn golygu ei fod yn bwysig i gynnal y gwasanaethau hyn / Tywyn's geographical position in relation to the rest of Gwynedd means that it is important to maintain services here.
- Dylid cael rota oriau agor fel bod un ai Llyfrgell Tywyn, Dolgellau, Abermaw neu Fachynlleth ar agor bob diwrnod o'r wythnos / Should have a rota of opening so that either Tywyn, Dolgellau, Barmouth or Machynlleth Libraries are open every day of the week.
- Os byddwch yn torri un awr y diwrnod byddwch yn effeithio ar ychydig o bobl ond byddwch yn achub y gwasanaeth i lawer / If you cut an hour a day you'll affect a few people but save the service for many.
- Pam ddim torri awr yn y boreau?
 - ✓✓ Na, dyma'r adeg fwyaf prysur.
 - Mae'r Swyddfa Bost yn agor am 9am ac mae'r bysiau yn cyrraedd am 9.40am.
 - Mae pobl yn ymweld ar ôl gwneud eu siopa.
 - Os wnewch chi dorri awr yn y bore byddwch yn diogelu gwraidd y gwasanaeth ✓
- Why not shave an hour off the morning?
 - ✓✓ No, it's busiest at this time
 - The Post office opens at 9am and buses arrive at 9.40am
 - People visit after doing their shopping
 - If you cut an hour in the morning you'll preserve the nucleus of the service ✓
- ✓ Pam ddim torri awr yn yr hwyrnos? – Bydd hyn yn rhyddhau ychydig o oriau.

- Dwi'n anghytuno efo hwn.
- ✓✓✓✓✓ Agor yn y nos o leiaf unwaith yr wythnos ac mae dydd Sadwrn yn bwysig.
- ✓✓✓ Bydd cau'n gynnar yn effeithio ar blant ysgol sy'n defnyddio'r cyfleusterau TG ar ôl ysgol
- ✓ Why not cut the late night? – this would free up a couple of hours
 - I disagree with this.
 - ✓✓✓✓✓ Evening opening at least once a week and Saturday is important
 - ✓✓✓ Shutting early would impact on school children using IT facilities after school
- Pam ddim cau am awr ychwanegol yn ystod amser cinio? / Why not close for an extra hour for lunch?
- Efallai bydd hi'n syniad i dorri diwrnod cyfan allan ond mae'n anodd penderfynu pa un.
 - ✓ Torri dydd Iau
 - Efallai'n syniad i gau bore Sadwrn?
- It may be an idea to take out a whole day but it's difficult to say which one
 - ✓ Cut Thursdays
 - May be an idea to close Saturday morning?
- Efallai cau am hanner diwrnod ddwywaith yr wythnos e.e. boreau Llun / Perhaps close 2 half days per week e.g. Monday mornings.
- Gallaf fyw gydag un bore ar gau / Could live with one morning closed.
- Beth am agor o 1pm – 5.30pm pob dydd, gan gynnwys dydd Mercher: byddai hyn yn gyson? / What about opening 1pm – 5.30pm every day including Weds: this would be consistent?
- Ar agor am hanner awr ychwanegol pob Dydd Sadwrn / Open extra half hour on Saturday.
- Mae agor ar benwythnosau yn bwysig gan bod 'na Canolfan Groeso wedi'i lleoli yn yr adeilad.
 - Dylai'r oriau agor gael eu cydlynw gyda'r Ganolfan Hamdden gan ei bod yn gweithredu fel Canolfan Groeso pan mae'r llyfrgell ar gau.
- Opening weekends are important because there's a TIC located in the building
 - Opening hours should be co-ordinated with Leisure Centre since it acts like TIC when library is closed
- Dwi'n defnyddio'r cyfrifiaduron bob wythnos – dibynnu arnyn nhw / I use the computers every week – depend on them.
- Ymwelwyr yn cael gwybodaeth sydd ei hangen arnynt heb orfod dibynnu ar y llyfrgell / Visitors get the information they need without having to depend on the library.
- Angen sortio arwyddion / Need to sort signs.

V. Beth fydd effaith gwario llai ar stoc? /What would be the effect of spending less on stock?

- Byddai hyn yn ofnadwy. Does na ddim digon o stoc beth bynnag gan ei bod yn llyfrgell fechan / This would be terrible. There's not enough stock anyway because it's a small library.
- Efallai na fydd ganddi lyfrau cyfredol – dim ond rhai hen! It may not have current books - just the old ones!
- Awgrymu eich bod yn peidio gwario ar lyfrau papur rhad gan fod pobl yn gallu cael y rhain mewn lle arall yn rhad iawn / Suggest you don't spend on cheap paper books because people can get them elsewhere for a few pounds
- Hapus i aros am lyfrau yn hytrach na chael y rhai diweddaraf unwaith y maent wedi'u cyhoeddi / Happy to wait for books rather than have the latest as soon as they come out
 - X Na – Rwyf eisiau cael y diweddaraf cyn gynted ag y maent wedi'u cyhoeddi/It's good to get books as soon as they appear on the market.

- Beth am ail-ystyried y pwyslais a gwario llai ar nofelau ansawdd gwael / Why not reconsider the emphasis and spend less on poor quality novels.
- Dim ots gen i os mae'r llyfrau'n flêr cyn belled eu bod nhw'n gyflawn – buasai hyn yn bechod / I don't mind tatty books as long as they are complete – this would be a shame.
- ✓✓Bydd llyfrau clawr caled o ansawdd neu rai gyda chloriau da yn para. ✓✓Quality hardback books or those with good covers will last.
- Mae llyfrau cloriau caled yn anodd i rai pobl afael yn y gwely, ond mae llyfrau cloriau papur yn mynd yn ddarnau / Hardbacks are difficult for some people to hold in bed but paperbacks fall to pieces.
- Dylai'r gwasanaeth ystyried prynu llyfrau ail law gan gyflenwyr mawr.
 - Buasai llyfrau ail law o ansawdd da yn iawn.
- The service should consider buying second hand books from large suppliers
 - Good quality second hand books would be fine.
- ✓✓Dylid buddsoddi mwy mewn stoc llyfrau y gellir gwrandio arnynt, sy'n gyfyngedig fan hyn. ✓✓Should invest more in audio book stock which is limited here.
- Having a cross-section of items is important. I don't like 'trashy' novels but there are people who do /Dylid cael rhywbeth at ddant pawb – os ydych yn ffafrio llyfrau poblogaidd buasech yn anwybyddu rhan o'r boblogaeth. Mae cael trawsdoriad o eitemau'n bwysig. Dwi ddim yn licio 'trashy novels' ond mae pobl rhai yn / Should cater for all tastes - if you favour popular material you would be ignoring a part of the population.
- Os yw pob llyfrgell yn gwneud toriadau mae 'na berygl y bydd yn anodd cael mynediad at lyfrau penodol neu ffeithiol / If every library cuts back there's a danger that it would be difficult to access specific or non-fiction books
- Os yw'r stoc yn cael ei chwtogi perygl bydd llai o bobl yn defnyddio'r llyfrgell / If the stock is reduced then there's a risk that fewer people will use the library.
- Mae'n bwysig cadw stoc Cymraeg / It's important to retain Welsh stock.
- Peidiwch â chwtogi'r stoc papurau newydd - mae materion lleol yn bwysig, yn enwedig i bobl heb y rhyngwrdd / Don't cut back on newspapers – local issues important, especially for people with no internet.
- When ordering books, it's important that the books arrive on time / Pan yn archebu llyfrau mae'n bwysig bod y llyfrau'n dod yn brydlon.
- Cadw llyfrau am gyfnod llawer hirach ac felly'n gwario llai / Hang on to books much longer and so spend less.
- Gofyn am gyfraniad gan glybiau darllen sy'n disgwyl nifer fawr o gopiau o lyfrau / Book clubs which expect large numbers of copies of books to make a contribution.

W. Beth fydd effaith bod â llai o staff a pheiriannau sganio yma?/ What would be the effect of having fewer staff and self-scanning machines here?

- ✓✓Bydd y peiriannau hynny'n fwy o gost na llafur, yn enwedig gyda chostau cynnal a chadw. ✓✓Those machines would cost more than labour especially with maintenance costs.
- ✓Bydd yn teimlo fel blaen y gyllell – hollol awtomataidd nesaf! ✓It would feel like the thin edge of the wedge – fully automated next!
- Dim yn credu bod digon o drosiant na chiwiau digon hir i'w gyfiawnhau / Don't believe there's enough of a turnover or long enough queues to justify
- Maent yn gweithio'n dda mewn cymuned fawr – Llyfrgell Caerlŷr er enghraifft – OND nid oes ciwiau yma / They work well in a large community - Leicester library for example, BUT there are no queues here.
- Byddai fel archfarchnadoedd gyda pheiriannau sydd ddim yn gweithio! / It'll be like supermarkets with machines not working!

- Ni fydd pobl o oedran penodol yn gallu defnyddio'r peiriannau hyn
 - Angen bod yn awtomatig iawn – dim botymau nac eiconau.
- People of a certain age won't be able to use these machines
 - Needs to be very automatic – not buttons nor icons
- Wast o amser – dim ond un aelod o staff sydd gan Tywyn eniwe / Waste of time – Tywyn library only has one member of staff anyway.
- Mae'r elfen gymdeithasol yn bwysig, yn enwedig i'r henoed / Social contact is very important, especially for the elderly.
- Perygl o danseilio'r llyfrgellydd sy':
 - yn tynnu plant i fewn
 - yn gyfarwydd gyda chwaeth pawb
 - yn gwneud y llyfrgell yn le hwyliog
 - ag arbenigedd
 - yn ateb cewstiynau.
- Danger of undermining the librarian, who:
 - draws children into the library
 - is familiar with everyone's tastes
 - makes the library an enjoyable place
 - has expertise
 - answers questions/enquiries

ch. Awgrymiadau - Suggestions

- ✓✓✓ Talu ffi am archebu llyfrau newydd.
 - Mae 'na ffi yn barod – 50p
- ✓✓✓ Pay a fee for ordering new books.
 - There's already a charge - 50p
- ✓✓✓✓ Cynllun i roddi hen lyfrau sy'n gyflawn ac sy'n ddeniadol i'r llyfrgell. ✓✓✓✓ Have a scheme to donate old books which are complete and appealing to the library.
- Ni allaf canmol y llyfrgellwyr ddigon – dylent gael eu gwobrwyo am eu gwasanaeth gwerthfawr / Can't speak highly enough about the librarians – they should be rewarded for their valuable service.
- Cael ffurflenni atgoffa am ddychweliadau hwyr. 'Mae rhywun yn aros am y llyfr hwn' / Have reminder slips for late returns – 'someone is waiting for this book'
- ✓✓✓✓✓✓✓ Dylai'r Cyngor gyfathrebu'n well am doriadau yn y nifer o swyddi uchel
 - ✓ Dylid torri ychydig i ffwrdd o gyflogau'r prif weithredwyr a'r cynghorwyr.
- ✓✓✓✓✓✓✓ The Council should communicate better about cuts in the number of top jobs
 - ✓ Should slice a bit off the salaries of top executives and councilors.
- Dylid adfer yr adran cyfeirio ac ehangu'r adrannau bywgraffyddol a ffeithiol / Should reinstate the reference section and extend biographical and non-fiction sections.
- Os byddai ffi enwol yn cael ei godi am defnyddio TG, bydd hyn yn ofnadwy i bobl ar incwm isel - efallai y dylid cynnig consesiynau e.e. i bobl ddi-waith / If there's a nominal charge for IT usage, this would be terrible for people on low income - perhaps have concessions for e.g. unemployed.
- ✓ Dylid cynyddu ffioedd am ddychweliadau hwyr. ✓ Should increase fines for late returns
- ✓ Dechrau codi rhai ffioedd e.e. 50p am 3 llyfr, er enghraifft / ✓ Initiate some fees e.g. 50p for 3 books for example
- Buddsoddi mewn cyfleusterau TG i'r genhedlaeth nesaf / Invest in IT facilities for the next generation.

- Perygl y bydd y gwasanaeth llyfrgelloedd yn mynd yn ddibynnol ar ffioedd enwol / There's a danger that the library service will become dependent on nominal fees.
- Beth am gael tanysgrifiad blyneddol? / What about having an annual subscription?
- Angen 'meddwl allan o'r bocs' megis cael mwy nag un gwasanaeth o dan yr un to / Need to think 'outside the box' such as having more than one service under the same roof
- Beth am gyfuno cyfleusterau – llyfrgell ganolog a llyfrgell i'r ysgol uwchradd? / What about combining facilities – central library and a library for the secondary school?
- Beth am gael cyfrifiaduron ysgol a llyfrgell i gyd mewn un lle? / What about having school and library computers all in one place?
- Beth am gael bocs rhoddi er na fydd staff eisiau delio â'r arian hyn? / What about having a donation box although staff may not like to deal with this money?
- Beth am gael rhodd o'r Cyngor Cymunedol (i'r llyfrgell)? / What about getting a donation from the Community Council to the library.
- Beth am osod rhesel beiciau i annog mwy o ddefnyddwyr? / Why not install a bike rack to encourage more users?
- Gwerthu cryno ddisgiau a chofbinnau i godi arian / Sell CDs and memory sticks to raise money.
- Mae benthyciadau rhynglyfrgellol am ddim yn bwysig ac yn ddefnyddiol / Interlibrary loans for free are important and useful.
- Mae'n bwysig i gadw benthyciadau rhynglyfrgellol ac i gadw dogfennau swyddogol, hyd yn oed ymysg llyfrgelloedd sy'n cael eu rheoli gan y gymuned / It's important to preserve interlibrary loans keep and to keep official documents even amongst community managed libraries.

d. Sylwadau – Comments

- ✓✓ Mae'r dosbarthiadau TG yn ddefnyddiol iawn i, er enghraifft, bensiynwyr. ✓✓ The I.T. classes are very useful for e.g. OAPs.
- ✓ Mae'r llyfrgellydd yn fy helpu i ddewis pa lyfrau Cymraeg i ddarllen i'r her darllen Cymraeg fel rhan o fy nghwrs dysgwyr Cymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth. / ✓ The librarian helps me to choose which Welsh books to read for the Welsh reading challenge as part of my Welsh learners course from Aber University.
- ✓✓✓ Mae pobl hŷn a phobl ddi-waith yn dibynnu ar y llyfrgellydd am gymorth gyda chyfrifiaduron. / ✓✓✓ Older people and those who are unemployed depend on the Librarian for help with computers.
- Mae'n gyffrous pan fydd Lori Ni yn ymweld â'r ysgol – mae pawb yn edrych ymlaen. / It's really exciting when the Lori Ni visits the school – everyone looks forward.
- Mae Tywyn wedi cael llawer o doriadau i wasanaethau'n barod e.e. casglu sbwriel a'r Banc. / Tywyn has already had a lot of cuts to services e.g. refuse collection and the Bank.
- Angen i'r Cyngor ystyried dylanwad y llyfrgell ar y Gymraeg a chydabod bod anghenion De Gwynedd yn hollol wahanol i'r Gogledd. / The Council needs to consider the library's influence on the Welsh language and recognise that the needs of South Gwynedd are different to North Gwynedd.
- Dylai'r strategaeth flaenoriaethu anghenion y llyfrgellwyr. / The strategy should prioritise the needs of librarians.
- Pam ddim cael llenni trwchus i leihau costau gwres? / Why not have thick curtains to save heating bills?
- Peidio codi pris llungopïo. / Don't increase the cost of photocopying.

Y strategaeth newydd a'r ymgynghoriad / The new strategy and the consultation

- Nid yw'n glir o'r ddogfen ymgynghoriad – 25% o beth sydd angen cael ei dorri? / It's not clear from the consultation document 25% of what needs to be cut?
- Methu gwneud cymhariaeth gyffelyb i bob llyfrgell – cymhareb rhwng poblogaeth a defnydd / Can't make a like for like comparison for each library – ratio between population and usage
- Am beth yr ydym yn talu'n treth cyngor? / What are we paying our council tax for?
- Dylai'r ymgynghoriad gynnwys ysgolion – a oes ymgynghoriad wedi bod â'r ysgolion? / This consultation should include schools - have the schools been consulted?
- It's the people that will be affected by these cuts – and this is already happening / Ar y bobl bydd y toriadau hyn yn effeitho – ac y mae hyn eisoes yn digwydd
- What effect will this have on further education – why doesn't this come under the education department? / Beth fydd effaith hyn ar addysg bellach – pam nad yw hyn yn dod o dan adran addysg?
- Helpu osgoi problemau eraill e.e. cadw pobl hŷn allan o gartrefi gofal / Helps avoid other problems e.g. keeping older people out of care homes

dd. Gwirfoddoli – Sut? / Volunteering – How?

- Un gweithiwr proffesiynol gyda chymhorthydd gwirfoddol i helpu gyda'r tasgau sylfaenol. Dim eisiau colli'r gweithwyr proffesiynol sydd gennym yn bresennol / One professional with volunteer assistant to help with basics. Don't want to lose the professionals we have at present
- Buaswn i'n gwirfoddoli – ond nid wyf yn hollol ddwyieithog. Er y byddai hyn yn helpu dysgwyr / I would volunteer – but I'm not fully bilingual. Doing this would help learners though
- Gallai'r gwirfoddolwyr helpu gyda defnyddio cyfrifiaduron a hyfforddi / Volunteers could help with computer usage and training
- Helpu gyda gweithgareddau darllen a dyddiau hwyl ac ati / Help with reading activities and fun days etc.
- Ni ddylid tanseilio staff. Nothing should undermine staff

LLYFRGELL PORTHMADOG LIBRARY

Adborth a sylwadau - Feedback and comments

Y Llyfrgell presennol a'r staff – The current Library and staff

- Does dim byd yn ormod i'r staff / the staff are very helpful
- Dydy'r TG ddim yn cadw fyny gyda datblygiadau / the IT has not been keeping up with the times ✓
- Mae'n dda fod pobl yn llogi ystafelloedd e.e. : Age Concern gyda gweithgaredd crefft / It is good that people can rent rooms e.g. Age Concern with craft activities

Manteision – advantages

- Hwylus o ran parcio a safle bws gerllaw sy'n addas i bobl sy'n teithio fewn o'r pen yna / Convenient for parking with a bus stop nearby; suitable for people travelling from that end.
- Synnwyr cyffredin i symud; gwell parcio a chyfle i gael adeilad mwy / It's common sense to move; better parking and opportunity to have a larger building
- Bosib denu plant a'u rhieni i'r llyfrgell tra mae nhw'n cael gwersi nofio / Could encourage children and their parents during swimming lessons.
- Gall fod yn fanteisiol o rhan y gymuned a'r ymdeimlad o gymdeithas e.e. cyfle am baned a chacen / This could benefit users in terms of developing a sense of society e.g. opportunities for paned and cake.

Gobeithion – Hopes

Y math o le / the type of place

- Hoffi'r weledigaeth o'r llyfrgell yn le bywiog gyda man gwybodaeth ar gyfer y Cyngor; math o siop-un-stop/ Like the vision of a 'vibrant' place, with an information point for the Council; a one-stop-shop.

Mynediad i Ganolfan Glaslyn / Access to Glaslyn Lesisure Centre

- Beth am annog y bws i alw wrth ddrws Canolfan Glaslyn a mynd trwy'r maes parcio? / What about encouraging the bus to call near the leisure centre door and go through car park? ✓
- Mae angen sicrhau bod y mynediad a'r oriau agor yn addas i ddefnyddwyr a'u gofawyr / Need to ensure that access and opening hours are suitable for library users and their carers.

Hygyrchedd - Access

- Angen gwneud y drws y tu fewn i'r adeilad ac i fewn i'r llyfrgell yn awtomatig ac yn llydan ar gyfer cadeiriau olwyn, sgwteri, coetsys a phobl sy'n defnyddio ffyn / Need to make door into library inside the building automatic and wider, suitable for wheelchairs, scooters and buggies and those with walking aids
- Byddai'n dda sicrhau bod y byrddau a'r cownteri ar lefelau amrywiol er mwyn sicrhau gall pobl mewn cadeiriau olwyn a sgwteri eu defnyddio / It would be good to ensure that tables and counters are at varying levels so that people in wheelchairs and scooters can use them. Enabling people in wheelchairs to get near the librarian to enable them to reach more easily.
- Os yw'r Gwasanaeth yn gweithio gyda CIL De Gwynedd ar gyfer pobl gydag anawsterau symud a Hafal ar gyfer pobl gydg afiechyd meddwl gall y cyfleuster fod yn beth cadarnhaol iawn / If the Service works with CIL de Gwynedd for the needs of people with mobility problems and Hafal for those with mental illness then the move could be very positive.

Staff

- Gobeithio y byddwch yn cadw staff gydag arbenigedd a sy'n gallu cadw reolaeth ar blant pan fo'r llyfrgell yn brysur / Hope you can keep staff with the expertise and keep order when library is busy with children.

Technoleg - Technology

- Ydy hi'n bosib cael cardiau sweip er mwyn cael mynediad i'r cyfrifiaduron tu allan i oriau craidd? Buasai hwn yn ymestyn oriau agored ac optimieddio defnydd o'r cyfleusterau / Would it be possible to have swipe cards to ensure access to IT outside core hours. This could extend opening hours and optimise use of facilities? ✓
- Beth am gael cyfarpar i ddefnyddwyr sganio-llyfrau er mwyn rhyddhau'r llyfrgellydd i helpu? / What about having equipment for users to self-scan books to release the librarian to help?
- Buasai blwch llythyrau i bobl ollwng llyfrau wrth basio'n dda – a letter-box suitable for dropping books off when passing would be good.
- Mynediad i ddeunyddiau cyfeiriol digidol / Access to digital reference material:
 - Addysg i ddefnyddwyr ar gyfer adnoddau digidol ar-lein/ User education for online digital resources :
 - Beth sydd am ddigwydd? / What's going to happen?
 - A yw'r Cyngor am dalu am y drwydded a ddelir ar y cyd gan lyfrgelloedd yng Nghymru? / Is the Council going to pay for licence held jointly by libraries in Wales?

Marchnata - marketing

- Angen sicrhau bod digon o arian ar gyfer marchnata / Need to ensure enough money for marketing

Pryderon - Concerns

- Safle newydd yn Glaslyn yn rhy bell o ganol dre ac angen cario llyfrau / The new site at Glaslyn is too far from the town centre, considering the need to carry books
- Mae o hefyd yn rhy bell i gerdded o safle bws Borth y Gest/ Morfa Bychan / It is also too far to walk from Borth y Gest/Morfa Bychan bus stop
- Ddim yn addas ar gyfer pobl heb geir / Access for people without cars? ✓
- Poeni am dalu am barcio yn y safle newydd / Concern about having to pay for parking at the new site
- Will there be suitable levels of qualified staff? / A fydd yno lefelau addas o staff cymwys? ✓

Awgrymiadau am y lleoli – suggestions re location

- Beth am adleoli yn un o'r ysgolion sydd yn well o ran pellter a gall helpu gyda staff cymwys a gwell TG? / why not relocate to one of the schools which is better in terms of distance and could help with qualified staff and better IT?
- Mae'r capel drws nesaf sy'n adeilad mawr ar werth a mae ystafell addas yno ; mae o yng nghanol y dre ac yn gyfleus / The chapel next door is for sale, it is a large building with a suitable room; it is in the town centre and is convenient
- Defnyddio'r adeilad presennol fel ysgol feithrin / Use the current building as a nursery school

Y Gwasanaeth ledled Gwynedd, y Cyngor a'r ymgynghoriad / The Service throughout Gwynedd, the Council and the consultation

Y ddogfen ymgynghorol – the consultation document

- Dydy'r ffordd mae'r wybodaeth yn cael ei gyflwyno yn y ddogfen ymgynghorol ddim yn galluogi cymharu rhwng y llyfrgelloedd. Pe bae'r llyfrgelloedd rhan amser yn cel eu gosod gyda'i gilydd byddai'n haws cymharu / The way info is presented in the consultation document 'more than books' does not enable like for like comparisons. If smaller libraries had been grouped together it would have been easier to compare.
- Dydy'r opsiynau teithio ar drafnidiaeth cyhoeddus ddim yn cael eu ystyried yn y ddogfen / The public transport options aren't taken into consideration in the tables of data in the document.

Y weledigaeth / the vision

- Beth am i lyfrgelloedd ddarparu amgylchedd i annog a helpu gwaith cartref wrth i e-ddysgu fynd yn fwy pwysig? / Could libraries provide an environment to assist with homework as e-learning becomes more important?
- Byddai cynnwys deunydd a chyfarpar hel achau yn denu defnyddwyr / Including material and equipment for family history research would help attract users.
- Dylai gweledigaeth ysbrydoli defnyddwyr a staff a gwneud i lygaid pobl oleuno fyny / A vision should inspire the staff as well as the users and make people's eyes light up!
- Dylai llyfrgellydd ymweld â gwledydd eraill i ddysgu am arfer da a phrofiadau eraill / A librarian should visit other countries to draw on experience and best practice elsewhere.

Y Cyngor / The Council

- Dylid torri cyflogau ar y top ac ailddosbarthu wrth y gwaelod / Salaries should be cut at the top and redistributed at the bottom

Yr ymgynghoriad / the consultation

- Mae hwn yn beth cadarnhaol, diolch / The consultation is a positive thing, thanks.